# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## **RHAN 3** E+W

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## **PENNOD 4** E+W

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Cyfrifo treth*

### **39 Dyletswydd i ddychwelyd ffurflen dreth mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu** E+W

(1) Rhaid i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy ddychwelyd ffurflen dreth i ACC mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu.

(2) Rhaid i'r ffurflen dreth gynnwys—

(a) asesiad o swm y dreth sydd i'w godi ar y person mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu (gweler adran 41), a

(b) naill ai—

(i) datganiad gan y person fod yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar y ffurflen dreth, a'r wybodaeth mewn unrhyw ddogfen sy'n mynd gyda'r ffurflen dreth, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf gwybodaeth y person, neu

(ii) os yw'r person yn awdurdodi asiant i lenwi a dychwelyd y ffurflen dreth ar ran y person, ardystiad gan yr asiant fod y person wedi gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 39. (See end of Document for details)*

(3) Rhaid dychwelyd y ffurflen dreth ar ddyddiad ffeilio'r ffurflen dreth neu cyn hynny.

(4) Dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth—

(a) yw diwrnod gwaith olaf y mis sy'n dilyn y mis y daw'r cyfnod cyfrifyddu i ben ynddo, oni bai y caiff y dyddiad ffeilio ei amrywio o dan adran 40;

(b) os caiff y dyddiad ffeilio ei amrywio o dan adran 40, yw'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad sy'n gwneud yr amrywiad (ac os gwneir mwy nag un amrywiad i'r dyddiad ffeilio, yw'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad sy'n gwneud yr amrywiad diwethaf).

(5) Y cyfnodau cyfrifyddu y mae'n rhaid i berson ddychwelyd ffurflen dreth mewn perthynas â hwy—

(a) yw'r cyfnodau a bennir yn is-adrannau (6) a (7), oni bai y caiff y cyfnodau hynny eu hamrywio o dan adran 40;

(b) os caiff y cyfnodau a bennir yn is-adrannau (6) a (7) eu hamrywio o dan adran 40, yw'r cyfnodau a bennir yn yr hysbysiad sy'n gwneud yr amrywiad (ac os gwneir mwy nag un amrywiad i'r cyfnodau cyfrifyddu, yw'r cyfnodau a bennir yn yr hysbysiad sy'n gwneud yr amrywiad diwethaf).

(6) Yn achos person sy'n gofrestredig—

(a) y cyfnod cyfrifyddu cyntaf yw'r cyfnod—

(i) sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person yn dechrau cyflawni gweithrediadau trethadwy (neu, os yw'n ddiweddarach, y diwrnod y daw'r person yn gofrestredig), a

(ii) sy'n dod i ben â diwrnod a bennir mewn hysbysiad a ddyroddir gan ACC i'r person;

(b) y cyfnodau cyfrifyddu dilynol yw pob cyfnod dilynol o 3 mis y mae'r person yn cyflawni gweithrediadau trethadwy ynddo.

(7) Yn achos person nad yw'n gofrestredig—

(a) y cyfnod cyfrifyddu cyntaf yw'r cyfnod—

(i) sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person yn dechrau cyflawni gweithrediadau trethadwy, a

(ii) sy'n dod i ben â diwedd y chwarter calendr y mae'r person yn dechrau gwneud hynny (neu, os yw'n gynharach, y diwrnod cyn y diwrnod y daw'r person yn gofrestredig);

(b) y cyfnodau cyfrifyddu dilynol yw pob chwarter calendr dilynol y mae'r person yn cyflawni gweithrediadau trethadwy ynddo (ond os daw'r person yn gofrestredig cyn diwedd chwarter calendr, daw'r cyfnod cyfrifyddu sy'n ymwneud â'r chwarter hwnnw i ben â'r diwrnod cyn y diwrnod y daw'r person yn gofrestredig).

(8) Yn yr adran hon, ystyr "chwarter calendr" yw cyfnod o 3 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I1** | A. 39 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)** |
| **I2** | A. 39(1)-(4) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3** |
| **I3** | A. 39(5)-(8) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(m)** |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 39.